# Bwletin y Farchnad HCC

Ionawr 2024

> **Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar ddata Kantar sydd newydd ei ryddhau sy'n awgrymu bod pwysau chwyddiant wedi arwain defnyddwyr i ffwrdd oddi wrth twrci ffres traddodiadol, oedd yn golygu bod cig coch wedi profi Nadolig da yn 2023.**
>
> **Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**



*Cyrhaeddodd cyfanswm gwerthiannau groser mewn siopau ym Mhrydain y lefel uchaf erioed o £13.8 biliwn yn ystod y 4 wythnos hyd at 24 Rhagfyr - sy'n gynnydd nodedig o 7% ar y flwyddyn, yn ôl arbenigwyr mewnwelediad defnyddwyr, Kantar. Daeth hyn o ganlyniad i nifer cynyddol o deithiau a oedd yn sbarduno twf cyfaint, ynghyd â **chwyddiant bwyd** oedd yn sefyll ar 6.7%, a fyddai wedi sbarduno llawer o dwf y farchnad.*

*Fe wnaeth categorïau wedi rhewi berfformio'n dda, a gwelwyd hyn yn y categori Cig, Pysgod a Dofednod hefyd. Y Nadolig hwn, roedd pwysau chwyddiant yn amlwg wrth i lawer o ddefnyddwyr edrych i newid o'u twrci ffres traddodiadol i dwrci wedi'i rewi gan fod hyn yn cael ei ystyried yn opsiwn mwy cost-effeithiol. Yma, byddwn yn edrych yn ddyfnach ar sut y perfformiodd cig eidion a chig oen y Nadolig hwn;*

## CIG EIDION

Gan edrych ar berfformiad cig eidion mewn siopau ym Mhrydain yn ystod y 12 wythnos hyd at yr wythnos yn dod i ben ar 24 Rhagfyr 2023; **roedd cyfanswm y gwariant i fyny bron i 6%** ar lefelau blwyddyn ynghynt, sef £636 miliwn. Sbardunwyd y cynnydd hwn mewn gwariant yn bennaf gan gynnydd o 7% yn y pris cyfartalog i £9.57/kg, gan fod cyfanswm y swm a werthwyd i lawr rhyw 1.5% ar y flwyddyn. Arweiniodd Covid a'r cyfnod clo at gynnydd yn nifer y cig coch sy'n mynd drwy siopau, ond rydym ni bellach yn gweld lefelau'n dychwelyd i batrymau mwy 'normal'. Roedd y cyfaint a werthwyd yn ystod y cyfnod o 12 wythnos yn is na lefelau blwyddyn ynghynt, a'r ddwy flynedd ynghynt, fodd bynnag, rhaid cofio bod hynny'n cymharu yn erbyn blynyddoedd cryf iawn, ac yn wir roedd cyfeintiau yn 2023 i fyny rhyw 10% ar lefelau cyn covid (y cyfnod cyfatebol o 12 wythnos yn 2019).

Mae gwerthiant cyfaint briwgig i lawr 1.5% ar y flwyddyn am y cyfnod - yn debygol oherwydd cynnydd o 16% mewn pris cyfartalog - fodd bynnag mae gwerthiant briwgig yn parhau i gyfrif am dros 50% o gyfanswm cyfaint y cig eidion a werthir. Roedd gwerthiant cyfaint stêcs yn debyg i lefelau blwyddyn ynghynt, fodd bynnag, profodd darnau rhostio gynnydd nodedig o 8% ar y flwyddyn o ran cyfaint. Dylanwadwyd ar hyn gan ostyngiad yn y pris cyffredinol ar gyfer darnau rhostio (i lawr 0.8% ar y flwyddyn i £9.91/kg ar gyfartaledd), yn debygol trwy hyrwyddiadau mewn siopau, a arweiniodd at gynnydd o 6% yn nifer y prynwyr yn y categori.

## CIG OEN

Roedd perfformiad cig oen mewn siopau ym Mhrydain yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig yn gadarnhaol o'i gymharu â lefelau blwyddyn diwethaf. Yn ystod y 12 wythnos hyd at 24 Rhagfyr 2023, cyfanswm y cig oen a werthwyd oedd 16,100 tunnell – cynnydd nodedig o 15% ar y flwyddyn. Roedd y pris cyfartalog ym maes manwerthu yn profi gostyngiad bach o 2% - i £11.30/kg ar gyfartaledd - a allai fod wedi annog mwy o ddefnyddwyr i brynu i'r categori eleni. O ganlyniad, **cynyddodd cyfanswm y gwariant 13%** ar y flwyddyn i sefyll ar £182 miliwn. Fel gyda pherfformiad cig eidion mewn siopau; cynyddodd cyfeintiau cig oen hefyd trwy siopau yn ystod Covid, ond mae'r tueddiadau presennol yn parhau i fod ar y blaen i'r lefelau cyn y pandemig (sy'n cyfateb i 3% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019).

Er gwaethaf gostyngiad bach yn y pris cyfartalog, mae cig oen yn parhau i gael ei ystyried fel cynnyrch premiwm gan ddefnyddwyr. Mae data gan Kantar yn awgrymu bod llawer o ddefnyddwyr wedi symud i ffwrdd oddi wrth dwrci ffres eleni, gyda chynhyrchion rhost cig oen yn ennill rhai o'r defnyddwyr hyn, gan arwain at wariant ychwanegol o £978K yma. Cododd cyfaint y darnau rhostio coesau cig oen a werthwyd yn ystod y cyfnod o 12 wythnos dros 30% ar lefelau blwyddyn ynghynt, tra bod nifer y prynwyr wedi cynyddu 24% oherwydd y newid hwn yng ngwariant defnyddwyr. O ganlyniad, mae nifer y darnau rhostio coes cig oen a werthwyd yn 2023 i fyny rhyw 14% ar lefelau cynharach blwyddyn, ac yn cyfrif am 43% o faint o gig oen a werthir mewn siopau.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?*

*Ar y cyfan, fe wnaeth cig eidion a chig oen berfformio'n dda mewn siopau yn ystod tymor yr ŵyl, a fyddai wedi darparu cefnogaeth i brisiau gatiau fferm ar y pryd. Edrych ymlaen; mae llawer yn dibynnu ar p'un a fydd chwyddiant is yn arwain at ddefnyddwyr yn dychwelyd yn ôl i 'ymddygiad arferol'. Bydd digwyddiadau fel y Pasg yn hwb i'r galw am gig oen yn benodol - yn enwedig gan y bydd y cyflenwad ar y farchnad ddomestig yn dynn o'i gymharu â lefelau hanesyddol.*

## GWARTHEG

### Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 20 Ionawr

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **491.3c/kg**. Roedd hyn:


- + 1.7c ar yr wythnos flaenorol,
- 38.3c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.


Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill yn -

- Heffrod: 487.9c/kg (+ 2.5c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 466.6c/kg (- 4.4c yr wythnos), a
- Gwartheg difa: 335.8c/kg (+ 8.2c yr wythnos).

### Trwybwn - Rhagfyr 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 207,000 pen – gostyngiad o 15% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 150,800 pen - i lawr 14% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -14%, heffrod -12%, a theirw ifanc -18%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 340.4kg (-0.5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 50,800 pen - i lawr 17% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 20 Ionawr

Cyfartaledd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain oedd 608.2c/kg. Roedd hyn:

- + 2.7c ar yr wythnos


Cyrhaeddodd y nifer oedd yn dod ymlaen i 37,840 pen. Roedd hyn yn:


- - 8% ar yr wythnos flaenorol,
- - 1% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

***Nodyn:*** *Mae newid yn y fethodoleg arolwg pwysau marw Prydain Fawr sy'n effeithiol o 25/11/2023, felly rydym yn argymell eich bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau hanesyddol.*

### Trwybwn - Rhagfyr 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.3 miliwn pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 1.1 miliwn pen – i lawr 8% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn ar gyfartaledd = 19.4kg (-0.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 129,500 pen – i lawr 16% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau – yr wythnos yn gorffen 13 Ionawr

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **213.1c/kg**. Roedd hyn:

- + 2.7p on the previous week,
- + 7.8p compared with year-earlier levels,
- 51.2p higher than the 5-year average (2018-22 average: 161.9p/kg).

### Trwybwn - Rhagfyr 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 798,900 pen – gostyngiad o 18% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 781,800 pen – i lawr 18% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu ar gyfartaledd = 88.9kg (+1.6kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn hwch a baedd = 17,100 pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.

